# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD GORFFENNAF 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19 o Orffennaf, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts, Cae Gors** |
| **CADEIRYDD** | **Arwyn Herald Roberts** |

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd **AHR** pawb i'r cyfarfod.

**Yn bresennol heno roedd:**

Michelle Williams **(MW);** Gwilym Williams **(GLW)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Cyng. Huw Rowlands **(HR)**; Adam Summers **(AS);** Nia Gruffydd; **(NG):** Jason Hunt **(JH);** Dafydd Wyn Jones **(DWJ);** Tom Ellis **(TE)**; ac Gillian Thomas **(y Clerc).**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**

Nerys Evans **(NE);** Aeron Maldwyn Jones **(AMJ).**

**3. DATGAN BUDDIANT**

Dim

**4. CADARNHAU COFNODION MEHEFIN 2023 A MATERION YN CODI**

Cynigwyd cofnodion Mehefin 2023 yn gywir gan GVT gydag GW yn eilio.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

a) **Rhif Cais/App Ref: C23/0483/24/DT - Bryn, Ffrwd Cae Du, Bontnewydd, LL54 7YG**
Dilyn a Darganfod
Tynnu lolfa haul presennol cefn ac adeiladu estyniad deulawr
*Dim gwrthwynebiad*

b) **Rhif Apêl/Appeal Ref: CAS-02548-C6B3D9 - Former Reservoir, Tir Ger Pen Y Ceunant, Rhostryfan, LL54 7LU**
NE - Dwi wedi edrych ar y llythyr apêl a dwi'n credu fod beth ddaru ni dweud pan ddaeth y cais cynllunio i mewn i ddechrau yn dal i fod angen ei ddweud ac ychwanegu hefyd fod yr adwy wedi ei hagor, heb ganiatâd, mewn man lle and oes adwy wedi bod ers o leiaf 70 mlynedd.
*Penderfyniad: ail wrthwynebu*
*Rheswm: Mae'r adwy mewn lleoliad hynod o beryg ar bwys y gyffordd*
*Adwy wedi ei hagor heb ganiatâd, mewn man lle nad oes adwy wedi bod ers o leiaf 70 mlynedd.*

**6. MATERION MISOL**

a) **SEDD WAG RHOSTRYFAN**
Oherwydd trafferthion technegol ni hysbysebwyd yr Etholiad mewn da bryd

*Y clerc i ail hysbysebu*

| | |
|---|---|
| | **c) ARCHWILIAD MEWNOL**<br>Cymeradwywyd yr adroddiad a mabwysiadwyd argymhellion yr Archwilwyr<br><br>**b) MEINCIAU GLAN RHYD A SGWÂR RHOSISAF/ HYSBYSFWRDD RHOSISAF**<br>Gan nad oedd modd atgyweirio'r hysbysfwrdd heb ei dynnu o'r safle cytunwyd gofyn am ddyfynbris i atgyweirio'r meinciau yn unig am y tro.<br><br>**c) TE - CAIS AM SAFLE BWS I LANWNDA**<br>I'w drafod eto<br><br>**d) MYNWENT CEFNFAES - GWAITH TORRI COED / FFENS YR ESTYNIAD / FFENS GORFFWYSER PLANT**<br>Gwaith torri coed wedi ei gwblhau, defnyddiau i godi'r ffens yn yr estyniad wedi ei archebu, bydd y gwaith i'w chodi yn cael ei baratoi yn fuan.<br><br>Bydd gwaith I godi'r ffens o amgylch gorffwysle'r plant hefyd yn cael ei baratoi yn fuan.<br><br>**e) DIWEDDARIAD AM GYFRIFOLDEBAU CAE CHWARAE RHOSTRYFAN**<br>Derbyniwyd gwybodaeth yn cadarnhau mai'r ysgol sydd yn gyfrifol am y siglen ar y safle<br>Y clerc i yrru blaen argymhellion yr Archwiliad Diogelwch I'r Ysgol<br><br>**f) LLWYBR BRYNGWYN - POSTIAU WEDI PYDRU**<br>Gan mai dim ond un dyfynbris oedd wedi ei dderbyn y clerc i hysbysebu'r gwaith eto<br><br>**g) GVT - CAIS AM WYBODAETH PARTHED BWRIAD I SEFYDLU CAE CHWARAE YN NINAS**<br>Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn i gais y Cyngor am esboniadau pellach.<br>HR wedi derbyn gwybodaeth gan Swyddog neilltuol o'r Cwmni bod gobaith i symud ymlaen a Gwedd 2 yn y dyfodol agos.<br>HR i gadw'r mater yn gyfredol<br><br>**h) CAE CHWARAE RHOSGADFAN**<br>Cadarnhaodd AHR bydd modd gwneud cytundeb heb amharu a rheolau sydd mewn lle gyda'r ymddiriedolaeth i lesu'r Cae Chwarae am £1 y flwyddyn ar amod bod y Cyngor hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gae Trem Don, bydd yn hanfodol paratoi deiseb a chyfarfod cyhoeddus cyn symud ymlaen.<br>Os bydd y trigolion yn hapus gyda'r trefniadau bydd yn trafod gyda Scottish Power incwm i barhau sefydlu'r polion ar y safleoedd.<br>Trafodwyd cyfrifoldebau a chostau cynnal a chadw – nodwyd bydd modd gwneud cais am grantiau ar gyfer adfywio.<br>Cytunwyd i drafod arwyddion yn y dyfodol.<br><br>i) **NE– MEINCIAU STESION RHOSTRYFAN**<br>Trafodwyd 3 dyfynbris oedd wedi ei dderbyn cytunwyd symud ymlaen i archebu 3 bwrdd picnic o Wynstay, Penygroes am £335 + VAT yr un. |
| **7.** | **ADRODDIADAU** |
| | **CYNG. HUW ROWLANDS**<br><br>a) Adroddodd HR bod y Cyngor Sir wedi bod yn archwilio'r ffordd o Ddinas i Saron ac yn adrodd eu bod yn disgyn i ddiffygion categori dau, sydd yn dderbyniol ynghyd destun diogelwch - bydd yn cael sylw fel bydd adnoddau yn caniatáu.<br><br>b) Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol am Ysgol Felin Wnda fis Hydref/Tachwedd, roedd yn rhagweld bydd yr ysgol yn cael ei chau fis Rhagfyr – nid oedd yn ymwybodol beth fydd y trefniadau parthed y plant – tybiodd byddent yn mynychu Llandwrog neu Fontnewydd. |

c) Gwaith torri gwair Rhostryfan i Ffrwd Cae Du / RhosIsaf i Ddinas- un ochor ddim wedi gwneud,- contractwr wedi cyflawni gwaith sâl iawn, bydd yn adrodd cwynion yn ôl i'r Cygnor Sir.

d) Maes parcio Ysgol Rhostryfan / llwybr graddol anabl – bydd yn parhau i gymorth yr Ysgol a Nia Parry i wneud ymholiadau am gynllun rheoli traffig a grant sydd ar gael ar gyfer llwybrau teithio llesol.
Bydd hefyd yn cymorth i wneud trefniadau parthed y tyllau yn y maes parcio.

e) Gofynnodd am adborth yr aelodau parthed lleoli baneri ar gyfer yr Eisteddfod, derbyniodd argymhellion i'w lleoli ger y Goat yn Llanwnda a Ffrwd Cae Du.

f) Gofynnodd am ddiweddariadau parthed Camfa Hen Gastell – nid oedd gan y clerc ddiweddariadau pellach
Y clerc i ofyn am ddiweddariadau gan yr Adran Llwybrau ac adrodd argymhellion yr aelodau i sefydlu 'Kissing Gate' wrth gysidro oedran y trigolion sydd yn ei defnyddio.

**CYNG. ARWYN HERALD ROBERTS**

a) Adroddodd AHR bod y Tîm Tacluso tacluso wedi bod yn ardal ac wedi cynnal gwaith anhygoel ger y Clwb, Rhosgadfan.

b) Roedd wedi cymorth Ymddiriedolaeth Cae'r Gors yn ddiweddar ac wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant am £4,000 i adfywio'r safle - bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i baratoi dosbarthiadau Cymraeg a gwnïo ac yn y blaen.

Bydd yn trefnu cyfarfod fis Medi gobeithiodd i annog trigolion lleol i ymuno'r Ymddiriedolaeth gan mae dim ond 4 aelod sydd bellach.

c) Roedd AHR yn ystod y mis wedi gofyn am gefnogaeth y Cyngor i eilio cais gan Glwb Pêl Droed Mountain Rangers am grant SPF. Gan fod pryderon wedi eu derbyn roedd wedi symud ymlaen yn hytrach ac wedi derbyn cefnogaeth gan Ysgol Rosgadfan , Clwb Mountain Rangers a Chlwb Bwa Saeth.

Adroddodd ddatganiad gan Bwyllgor Clwb Pêl Droed Mountain Rangers mewn ymateb i bryderon yr aelodau. Esboniodd bod Pwyllgor Newydd wedi ei sefydlu ers haf 2021 gyda Chadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd ac aelodau newydd. Sefydlwyd y Pwyllgor newydd yn hollol ddall i weinyddiaeth cynt y Clwb gan nad oedd Cyfrifon na Chofnodion wedi ei throsglwyddo.

Yn dilyn gohebiaeth gan Gyngor Chwaraeon Cymru a honiadau am gam ddefnydd o gyllid oedd wedi ei dderbyn fel grant yn ystod tymor 2019 - 2020 maent wedi cydnabod a derbyn twyll y Pwyllgor blaenorol ac wedi talu nôl y grant yn gyfan gwbl, mae'r Clwb bellach yn ddi ddyled.
Nodwyd bod Cyngor Chwaraeon Cymru wedi derbyn mae blerwch y Pwyllgor blaenorol oedd ar fai a bod perthynas gref wedi ei sefydlu bellach gyda'r Clwb ar Cyngor.

d) Diweddarodd am gyfarfod pellach sydd wedi ei drefnu gyda'r heddlu i drafod rhagor o ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhentref Rhosgadfan.

e) Gofynnodd i'r aelodau am gefnogaeth y Cyngor I sefydlu bws I Ieuenctid 11-16 oed Rhostryfan, Rhosgadfan, Carmel, y Fron a Groeslon I fynychu Clwb Ieuenctid ym Montnewydd pob nos Iau o 7 tan 9 y nos. Bydd modd mynychu o ddeutu 42 wythnos y flwyddyn.
Bydd hefyd yn chwilio am Nawdd gan yr Heddlu a'r Cyngor Sir. Bydd gwarchodwr ar y bws, nid oedd costau wedi ei dderbyn hyd yn hyn.
Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor.

f) Adroddodd am docynnau rhad ac am ddim i drigolion bregus yr ardal i'r Eisteddfod a bws am ddim o Rosgadfan.

g) Adroddodd ddiweddariadau cwynion am lifogydd Tŷ Hen, Rhosgadfan - Wedi cyfarfod a chwmni Adra ac Adran Eiddo, ymchwiliad lleoliad gwreiddiol y llifogydd yn parhau i fod ar y gweill.

| | |
|---|---|
| **8.** | **MATERION ARIANNOL** |

**a)** **CYSONIAD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **28.03.23** | **CYFRIF CYFREDOL** | | **£10,620.60** |
| **29.03.23** | **CYFRIF CADW** | **+** | **£63,581.85** |
| **01.04.23** | **TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **-** | **£1,190.00** |
| **2023/2024** | **GWARGED** | **+** | **-£2,002.98** |
| | | **=** | **£71,009.47** |

**DATGANIADAU'R BANC**

- -

**CYFRIF CADW - 25 o Ebrill i 29 o Fai 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£63,581.85** |
| Derbyniadau | **+** | £0.00 |
| Gwariant | **-** | £0.00 |
| Balans Cau | **=** | **£63,581.85** |

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Fai i 28 o Fehefin 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£13,093.02** |
| Derbyniadau | **+** | £0.00 |
| Gwariant | **-** | £963.90 |
| Balans Cau | **=** | **£12,129.12** |

**CYFANSWM Y DDAU GYFRIF** **=** **£75,710.97**

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.04.23 | Papur Bro Lleu | **101700** | £400.00 |
| 19.04.23 | TCDLL | **101704** | £100.00 |
| 24.05.23 | Cylch Meithrin Rhostryfan | **101706** | £350.00 |
| 21.06.23 | ROSPA Play Safety | **101708** | £201.00 |
| | | **=** | **£1,051.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.07.23 | Cyflog a Threuliau Clerc | **101711** | £656.50 |
| 19.07.23 | Mr M. O. Williams | **101709** | £500.00 |
| 19.07.23 | Wyn Williams | **1017010** | £2,494.00 |
| | | **=** | **£3,650.50** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** **=** **£71,009.47**

| | |
|---|---|
| **9.** | **GOHEBIAETH** |

**a)** **HYSBYSIAD O WAITH AROLWG SYSTEM DRAENIO A487 FFORDD OSGOI CAERNARFON A BONTNEWYDD**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

| | |
|---|---|
| | **b)** **SUSTAINABLE DRAINAGE FEASIBILITY GRANT**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**c)** **NEWYDDLEN GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD GWYNEDD**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**d)** **NEWYDDION YR HAF: ATGYFNERTHU'R RHWYDWAITH O BENTIR I DRAWSFYNYDD**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**e)** **GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD (AMRYW FFYRDD SIROL, ARDAL ARFON) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 20 M.Y.A.) 2023**<br>Nodwyd bod rhai arwyddion wedi cael ei newid yn barod ond nid yw'r gorchymyn yn dod i rym tan fis Medi.<br><br>**f)** **CANLLAW GWEITHREDU HINSAWDD A NATUR AR GYFER CYNGHORAU CYMUNED A THREF YNG NGHYMRU**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu<br><br>**g)** **COEDWIG GENEDLAETHOL I GYMRU**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu |
| **10.** | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a)** **TE – COED O AMGYLCH Y GOAT YN LLANWNDA YN CAEL EI DEFNYDDIO FEL TOILED GAN GERDDWYR**<br>Cytunodd HR I ddilyn y mater<br><br>**b)** **MW – GWERSYLLA AR LON WEN, RHOSGADFAN**<br>Y Clerc I ail gysylltu â'r Cyngor Sir<br><br>**c)** **GW - BWLCH WEDI DISGYN YN FYNWENT CEFNFAES OCHOR Y CAE WRTH Y CWT**<br>Y clerc i hysbysebu'r gwaith<br><br>**d)** **GW - RAGWORT YN TYFU OCHOR FFYRDD**<br>Y clerc i adrodd y gwyn a gofyn am raglen waith i'r Cyngor Sir<br><br>**e)** **GW - GORDYFIANT DROS ARWYDDION FFORDD - GROESLON AM DDOLYDD WRTH GAPEL BRYN RHODYN**<br>Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**f)** **GVT -ARWYDDION CAU GIATIAU I'R GRIDIAU GWARTHEG**<br>AHR i drafod y mater gyda Cabinet y Cyngor Sir |
| **11.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 20 o Fedi 2023 – Cae Gors, Rhosgadfan – 7y.h<br><br>• Rhwystrau Ar Lwybr Cyhoeddus O Fryn Bach I Frithdir Rhosgadfan<br>• Camfeydd Llwybr 161 Waun Bant<br>• TE - Cais Am Safle Bws I Lanwnda |